AM DDIM

Cyfnodolyn yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 248 Mehefin - Gorffennaf 2024

# Gwyliedydd

## CROESO I GYMRU



# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**



Roedd hi'n glawio. Nid glaw trwm, ond digon i wneud i rywun deimlo'n wlyb. Roedd hi'n wyntog hefyd. Gwynt ysgafn, ond digon i wneud inni chwilio am gysgod yr ystafell aros. Roedden ni – y gŵr Pete a minnau – ym mhorthladd bach Fhionnphort yn ne ddwyrain Ynys Mull yn yr Alban, yn disgwyl am fferi fach i groesi i Ynys Iona, fis Ebrill eleni. Roedd yn bererindod i'r ddau ohonom ni, mewn ffordd. Roedden ni wedi ymweld â'r ynys o'r blaen rai blynyddoedd yn ôl – ymweliad arbennig, fel pob ymweliad â'r ynys hon – a doedden ni ddim am golli'r cyfle i fynd eto.

Mae rhai yn dweud bod Iona yn 'fan tenau', un o'r mannau hynny lle mae'r llen rhwng y byd hwn a'r byd a ddaw yn fain a Duw i'w deimlo'n agos, mewn ffordd sylweddol – tebyg i Ynys Enlli, felly. Mae'n cael ei ddisgrifio hefyd fel man fu'n grud i Gristnogaeth yn ynysoedd Prydain. Cafodd ei sancteiddio gan weddïau di-rif byth ers i Columba Sant gyrraedd yno o Iwerddon i sefydlu ei fynachdy yn 563, ychydig flynyddoedd wedi i Dewi Sant sefydlu ei fynachdy yntau yng Nghymru. Bu farw Dewi yn 589 a Columba yn 597. Roedden nhw'n gyfoeswyr, mwy na lai – a Duw ar waith ymhlith pobl Prydain trwy weinidogaeth y ddau.

Erbyn y pnawn, roedd hi'n parhau i fod yn oer a gwyntog ond yna peidiodd y glaw a chododd hi'n braf. Doedden ni ddim am ymweld â'r abaty enwog, a gafodd ei ailadeiladu yn ystod y ganrif ddiwethaf trwy weledigaeth y Parch George MacLeod, gweinidog yn Eglwys yr Alban, ac sydd erbyn hyn yn ganolfan i waith ecwmenaidd Cymuned Iona. Yn hytrach, roedden ni am gerdded ar draws yr ynys i Fae Columba, lle glaniodd y sant ar ôl taith hir a thrafferthus dros y môr. Cerddom ni i ben pellaf y pentre, tu hwnt i dai gwasgaredig yr ynys, ac ar draws y cwrs golff (roedden ni yn yr Alban, cofiwch!), heibio Loch Staonaig sef cronfa ddŵr y boblogaeth ers talwm, ac i lawr y bryn tuag at lan y môr. Er gwaethaf y gwynt, roedd hi'n braf iawn a buom yn eistedd yn eithaf hir ar greigiau ar y traeth, yn mwynhau'r tawelwch a'r tangnefedd gan edrych tuag at y gorwel. Yn ôl y chwedl, treuliodd Columba 40 dydd a 40 nos yn gweddïo cyn iddo ddechrau codi ei abaty. Buasem ninnau wedi gallu aros cyhyd ag yntau yn y fath awyrgylch braf!

O Iona, aeth cenhadon allan i ddweud am yr efengyl wrth bobl yr Alban a Gogledd Lloegr – fel yr aeth cenhadon allan o Dyddewi, tua'r un amser, i ddweud wrth bobl Cymru am gariad Duw. Treuliodd Sant Oswallt ran o'i blentyndod yn alltud ar Ynys Iona, yn cael ei fagu yn nhraddodiad Celtaidd Cristnogaeth. Ac yntau yn frenin Northumbria ar ôl 633, roedd am ddysgu pobl ei wlad am Iesu ac fe anfonodd am rywun o Iona i sefydlu abaty ar Lindisfarne. Oddi yno aeth y brodyr allan i efengylu trwy Ogledd Lloegr, y Canoldir a hyd yn oed mor bell ag Essex. A dyna finnau wedi byw yn Lichfield, lle bu Chad o Lindisfarne yn esgob, ac rŵan yn byw ger Croesoswallt, lle bu farw Oswallt ... caf fy synnu o hyd wrth feddwl am y rhwydwaith a'r cysylltiadau sy'n rhedeg trwy hen hanes ein hynysoedd. Mae presenoldeb y seintiau ymhob man.

Wrth imi eistedd ar draeth Bae Columba Sant, yn mwynhau'r heddwch a'r teimlad o dragwyddoldeb, meddyliais sut y bu i bethau newid ar Iona mewn cyfnod eithaf byr. Yn 664, ychydig dros ganrif wedi i Columba lanio ar Iona, cynhaliwyd Synod Whitby (efo Cedd o Lindisfarne, brawd Chad, yn gyfieithydd), a newidiodd hanes Cristnogaeth ym Mhrydain am byth. Cafodd traddodiad Celtaidd Cristnogaeth ei ddisodli gan draddodiad Rhufain. Os nad oedd hynny'n ddigon anodd i ddilynwyr Dewi a Columba a'r lleill, tua chanrif wedyn fe ddechreuodd y Llychlynwyr ymosod ar Brydain. Roedd llawer o'r abatai yn agos at yr arfordir ac, erbyn hyn, yn ffynhonnell cyfoeth. Dioddefodd Lindisfarne o 793 ymlaen ac Iona o 795, ac roedd Tyddewi yn darged i'r Llychlynwyr rhwng 982 a 1000 – cyfnod gwaedlyd a threisgar. Serch hynny mae pobl fel fi yn dal i deithio i Iona a chofio am Columba. Dydy Duw byth yn gadael ei hunan heb dystion.

Fel mae pobl Cymru yn cofio am Dewi Sant ar Fawrth 1af, 9fed Mehefin yw dydd Columba Sant. Wrth i ni fel Cristnogion fyw trwy gyfnod o newid ac ansicrwydd hefyd, mae gennym ni lawer i'w ddysgu drwy edrych yn ôl a chofio sut mae Duw wedi gweithio trwy ei bobl hyd yn oed ar yr adegau mwyaf anodd. Mewn ysbryd o undod Celtaidd, diolch i Dduw am Columba ac am ei saint i gyd.



## Gweddi Fanaweg

Chiarn t'ou gobbraghey dy kinjagh ga nag nodmayd fakin eh, ec traaghyn doillee kyndagh rish fuillaghtagh as guin, t'ou shooyl faggys dooin. T'ou nyn soilshey ayns ny traaghyn s'dorree; nyn dreisht tra ta dagh ooilley red caillt as nyn niart tra ta shin tuittym. Cooin lhien dy hreishteil ayns dty chummey as dy akin dty hashtaghyn ayndoosyn mygeayrt y mooin. Amen.

Arglwydd, rwyt ti bob amser ar waith er i ni fethu gweld. Ar yr adegau anodd pan fyddwn yn wynebu dioddefaint a phoen, rwyt Ti gyda ni. Ti yw'r goleuni ar yr adegau tywyllaf; y gobaith pan fydd popeth ar ben; a'r nerth pan fyddwn yn diffygio. Helpa ni i ymddiried yn dy gynllun di ac i weld dy drysorau di yn y rhai sydd o'n cwmpas. Amen.

Gweddi gan Ealish Ayres o Ynys Manaw, yn Llawlyfr Gweddi yr Eglwys Fethodistaidd




# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN CYMRAEG YR EGLWYS FETHODISTAIDD**

Sefydlwyd 1877
– Cyfres Newydd 1987

**RHIF 248**
**MEHEFIN – GORFFENNAF 2024**

**Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Cylchdaith Cymru"**

**(NID "i'r Gwyliedydd" os gwelwch yn dda)**

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



**DYDDIAD CAU**
5 GORFFENNAF 2024
Llun y clawr
Ymweliad Llywydd ac Is-lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd ag Abertawe ym mis Mai


*Tyrd, Ysbryd Sanctaidd, tyrd yn awr*
*a gweithia ynom nerthol ffydd,*
*ac yn dy hyfryd nefol wawr*
*ein tywyll nos â'n olau dydd.*

Charles Wesley (Cyf. John Bryan)


Dyluniwyd gan Ffrwd Cyfyngedig
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa




## Diolch

**Gwerthfawrogwn yn fawr y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*.**

| | |
|---|---|
| Dienw | £25-00 |
| Islwyn Evans, Llanfairfechan | £20-00 |
| Margaret Lloyd, Llanfairpwll | £25-00 |
| Dienw | £10-00 |
| Dienw | £10-00 |
| **Cyfanswm** | **£ 90-00** |

## Llythyr at y Golygyddion

Braf oedd darllen yn y rhifyn diwethaf am yr adnewyddiad ieithyddol yn Ynys Manaw. O'r ddeunawfed ganrif ymlaen, yn wir, bu Methodistiaid yn ganolog i'r adfywiad hwn. Ar ôl gwaith arloesol gan yr Eglwys Anglicanaidd, chwaraeodd yr eglwysi Methodistaidd ran bwysig iawn. Adeg ymweliad John Wesley yn 1781 roedd 22 o Bregethwyr Lleol yn medru pregethu yn yr iaith Fanaweg.

Roedd 147 o emynau yn y Llyfr Emynau Manaweg a gyhoeddwyd yn 1795, sef cyfieithiadau o waith Charles Wesley yn bennaf ond hefyd Watts, Addison, Ken a Cooper. Erbyn y pedwerydd argraffiad (a'r olaf) yn 1846 roedd 221 emyn, er mai prin oedd emynau gwreiddiol yn yr iaith. Cyhoeddwyd catecism hefyd mewn Manaweg. Erbyn 1848 roedd mwyafrif y Pregethwyr Lleol yn medru pregethu mewn Manaweg, er mai dim ond yn Saesneg roedd y rhai iau yn tueddu i bregethu. Am ychydig flynyddoedd o 1821 ymlaen anfonodd Cymdeithas yr Ysgolion Sul yn Llundain lyfrau ysgol i'r ynys, gan arwain at ddefnydd o'r Fanaweg at ddibenion addysg.

Gyda dyfodol y Fanaweg mewn perygl mawr erbyn yr ugeinfed ganrif, nododd UNESCO ei bod bellach yn iaith farw. Ond ysgrifennodd rhai o blant ysgol yr ynys at y corff hwnnw a gofyn: 'Os yw ein hiaith wedi marw, sut ein bod ni'n ysgrifennu atoch ynddi hi?' Newidiwyd y categori i 'iaith mewn perygl mawr o ddiflannu'. Mae'r Fanaweg yn dal yn fyw. Mae'r llanw crefyddol ac ieithyddol wedi troi!

*Clive James, Caeathro*



Ynys Manaw

# CYTÛN YN PENODI YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL NEWYDD



Mae ymddiriedolwyr Cytûn (Eglwysi ynghyd yng Nghymru) wedi cadarnhau bod Dr Cynan Llwyd wedi'i benodi'n Ysgrifennydd Cyffredinol i Cytûn o 1 Gorffennaf 2024 ymlaen. Mae'n olynu'r Parchedig Siôn Brynach a fu'n Brif Weithredwr Cytûn tan ddiwedd Ebrill, ac sydd bellach yn offeiriad llawn-amser gyda'r Eglwys yng Nghymru.

Brodor o Aberystwyth yw Cynan ond bellach mae'n byw yn Nhrelluest (Grangetown) yng Nghaerdydd gyda'i wraig Rachel a'u dau fab. Mae'n ddiacon yn Eglwys Ebeneser Caerdydd (Annibynwyr) ac yn un o arweinwyr Angor Grangetown, sy'n un o fentrau arloesi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Astudiodd y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae ganddo MPhil o Brifysgol Aberystwyth a PhD o Brifysgol Caerdydd lle'r ymchwiliodd i *Athrawiaeth yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant yng ngwaith rhai o'r Piwritaniaid Cymreig a'u goblygiadau cymdeithasol yng Nghymru.* Mae ganddo brofiad helaeth o weithio gydag eglwysi ac elusennau yng Nghymru. Mae hefyd yn awdur dwy nofel i bobl ifanc ac mae ei drydedd nofel ar fin ei chyhoeddi.

Meddai Cadeirydd Ymddiriedolwyr Cytûn, y Parchedig Jennifer Hurd: "Mae'n braf iawn croesawu Cynan fel Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Cytûn a'i longyfarch ar ei benodiad. Dw i'n edrych ymlaen at gydweithio tra dw i'n gwasanaethu fel Cadeirydd Ymddiriedolwyr Cytûn, a boed i Dduw fendithio gwaith Cynan efo'r eglwysi yng Nghymru er mwyn i ni nesáu at ein gilydd a chydweithio er mwyn teyrnas Dduw."

# "Pacistaniad o enedigaeth, dinesydd Prydeinig bellach, ond trwy ras Duw cefais fod yn Gymro"

Dyma bennawd a welwyd yn WalesOnline ychydig yn ôl, pan adroddwyd stori'r Parchedig Irfan John, un o'n gweinidogion ni. Fel Cristnogion, wynebodd ef a'i deulu erledigaeth yn eu gwlad enedigol sef Pacistan. Yn Rhagfyr 2005 aeth pethau mor ddrwg nes iddynt ffoi i Brydain, heb wybod beth fyddai'n eu hwynebu nesaf. Efallai y byddai Llywodraeth Prydain yn eu carcharu, am a wydden nhw.

Sut bynnag, cyrhaeddon nhw Gaerdydd a chael croeso yno. Wrth ymgartrefu yng Nghaerdydd, aethant ati i ymestyn allan at ffoaduriaid eraill yn y brifddinas a helpu i sefydlu Canolfan y Drindod ar gyfer pobl sy'n ceisio lloches, mewn capel Methodistaidd yng Nghaerdydd. Mae Irfan yn frwd iawn dros helpu a galluogi pobl o wahanol ddiwylliannau i addoli yn eu hieithoedd eu hunain yn ogystal â bod yn rhan o fywyd eu gwlad newydd ac eglwysi lleol. "Mae yna un iaith y gall pawb ei gwybod," meddai. "Iaith Duw, sef iaith cariad."

Dyma lun y Parchedig Irfan John, ei wraig Raheela a'u plant Karam, Iram, Daud ac Iraj.



I lawer, rhywbeth damcaniaethol yw'r ddadl ynglŷn â Rwanda. Heddiw fe wnaeth ein cynulleidfa ni weddïo dros aelod sy'n geisiwr lloches ac a gafodd lythyrau yn bygwth ei gyrru i ganolfan gadw a'i hanfon o'r wlad. Mae hi wedi dychryn am ei bywyd.

"Os bydd un aelod yn dioddef, yna mae pob aelod yn cyd-ddioddef"
1 Corinthiaid 12.26

@samjtomlin ar X, 5 Mai 2024

# Dysgu Cymraeg

gan **Angharad Tomos**



Mae'n siŵr ei fod wedi digwydd i chi, **yn enwedig** os ydych yn siarad Cymraeg. Rydych ar eich gwyliau mewn gwlad **dramor**, ac yng nghanol yr holl **ddieithrwch**, rydych yn clywed rhywun yn siarad Cymraeg! Mae yn brofiad mor od, a rydych eisiau dod i nabod eich cyd- Gymry a gwybod beth yw **hynt eu gwyliau**.

Cofiaf ni ar ein gwyliau yn **rhyw wlad**, a'r gŵr a minnau yn sgwrsio, a merch ifanc yn dod atom, "Da chi'n siarad Cymraeg!" meddai, a daeth **dagrau** i'w llygaid. Dyma **sgwrsio**, ac roedd y ferch **dan deimlad**. Roedd yn fyfyriwr, ac yn amlwg yn unig. **Cyfaddefodd** yn syml, "mae siarad Cymraeg yn codi cymaint o hiraeth arnaf!"

Yn yr Eidal rhyw fis yn ôl, daeth gŵr ataf a dweud, "Angharad?" Doedd gen i **ddim syniad o gwbl** pwy ydoedd, nes iddo **f'atgoffa**. Kent oedd ei enw, Americanwr ddaeth i Benygroes fel **cenhadwr**, a doeddem heb weld ein gilydd ers ugain mlynedd. Yn Oslo mae yn byw **bellach**.

Rhyfeddaf at y **cyfarfyddiadau** hyn. Petaem wedi dod ar y ffordd honno **eiliadau yn gynt**, falle y byddai Kent wedi mynd i'r cyfeiriad arall. Petaem eiliadau yn hwyrach, byddem wedi colli ein gilydd. Ond yn digwydd bod, y diwrnod hwnnw, dyma ganfod ein gilydd, dod wyneb yn wyneb â'n gilydd, ac yna mae'r **adnabod** yn digwydd.

Rhywbeth tebyg ydi dod i nabod Duw. Mae'r llais yn **gyfarwydd**, a gall godi hiraeth. Yna, mae moment y **cyfarfod** yn dod – yn gwbl **annisgwyl** – ac mae'r adnabod **yn digwydd.**

**yn enwedig** – especially
**t/dramor** – overseas
**dieithrwch** – strangeness
**hynt eu gwyliau** – the story of their holiday
**rhyw wlad** – some country (or other)
**dagrau** – tears
**sgwrs** – conversation/ **sgwrsio** – to chat
**dan (under) deimlad** (feeling) – emotional
**cyfaddefodd** – s/he confessed
**ddim syniad o gwbl** – hadn't a clue
**f'atgoffa** – reminded me
**cenhadwr** – missionary
**bellach** – by now
**cyfarfyddiadau** – meetings
**eiliadau yn gynt** – seconds earlier
**adnabod/ nabod** – recognising/ knowing (in a deep sense)
**cyfarwydd** – familiar
**cyfarfod** – meeting
**annisgwyl** – unexpected
**yn digwydd** – happens

# Pregethwyr Lleol



Noson i'w chofio yng nghapel Shiloh, Tregarth oedd nos Fercher, yr 8fed o Fai eleni, pan gynhaliwyd oedfa dan arweiniad y Parchedig Ddr Ian Morris a'r Fs Bet Holmes, i dderbyn a chomisiynu Rhian Evans-Hill a Ffion Rowlinson yn bregethwyr lleol yn yr Eglwys Fethodistaidd. Roedd yn achlysur o ddiolch a llawenydd, yn dilyn eu paratoad dros gyfnod hir ar gyfer y gwaith hwn. Diolchodd y ddwy yn arbennig i'w tiwtor y Parchedig Ddr Jennie Hurd am ei chymorth a'i harweiniad.



Uchafbwynt y noson oedd pregeth y Parchedig Deb Stammers, gweinidog gyda'r Bedyddwyr yng Nghaergybi a merch i'r Parchedig Chris Gray, Cadeirydd Cynorthwyol Synod Cymru Wales. Roedd brwdfrydedd heintus Deb a'i hargyhoeddiad yn ein deffro ni i gyd fel cynulleidfa i'n cyfrifoldebau fel aelodau o Eglwys Iesu Grist yn ein hardaloedd. Bendith Duw fyddo ar Ffion a Rhian yn y gwaith ac ar bawb arall oedd yn bresennol yn yr oedfa arbennig hon.
*RJ*

# Capel Ni

## yn Eglwys Iesu

## *Ebeneser, Dolgellau*



### CYFARCHION PEN-BLWYDD
Llongyfarchiadau i Dai Morgan ar ei ben-blwydd yn 80 ym mis Ebrill. Mwynhawyd paned a chacen i ddathlu'r achlysur yn dilyn y gwasanaeth ar 21 Ebrill a chyflwynwyd anrheg iddo – sef llun wedi ei fframio ohono ef gyda'r ci oedd wedi ymuno ag ef yn y capel yn ddiweddar.

### COFION
Estynnwn ein cofion at Mrs Doreen Thomas sydd wedi dychwelyd adref o Gartref y Bay, Tywyn. Edrychwn ymlaen at ei gweld yn ôl yn yr oedfa efo ni ar fore Sul.

### NEWYDDION TRIST
Gyda gofid y clywsom y newyddion trist am farwolaeth y Chwaer Eluned Williams yn ei chartref brynhawn dydd Gwener 3 Mai yn 88 oed, ar ôl brwydr ddewr. Colled enfawr i ni yn Ebeneser ac i Ddolgellau a'r cylch. Gwraig arbennig iawn. Estynnwn ein cydymdeimlad at ei brawd, Dewi a'r holl gysylltiadau teuluol eraill yn eu colled. Bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.
**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

## *Ardal Bathafarn*

### DATHLU
Llongyfarchiadau calonnog i Ynyr a Sioned ar enedigaeth merch fach sef Begw, chwaer fach i Nanw, ac i Rhodri a Rhian ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Pob bendith a hapusrwydd iddynt i'r dyfodol.

### PROFEDIGAETH
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant iawn at Lona, Huw a Peggy a'r teulu i gyd o golli tad, tad yng nghyfraith, taid a hen daid hoffus sef Gwyn Atkinson, Clocaenog. Bu Gwyn yn ffyddlon yng nghapel Wesle Bethesda, Clocaenog, Seion, Llanelidan a hefyd ym Mathafarn tra roedd ei iechyd yn caniatáu. Roedd yn gymeriad annwyl a hwyliog a bydd chwithdod mawr ar ei ôl i'w deulu a'i ffrindiau. Cynhaliwyd ei gynhebrwng ym Methania dan arweiniad Elizabeth ac fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Eglwys Clocaenog.

Tristwch oedd clywed fod y Parchedig Dennis Griffiths wedi ein gadael, yntau yn gymeriad hawddgar iawn a gweithiwr diflino i achos Crist. Bu'n hynod o deyrngar a ffyddlon i ni yn Ardal Bathafarn a phawb â meddwl y byd ohono. Cawsom lawer o hwyl yn ei gwmni hoffus. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at ei briod Gwendolen a Huw y mab, hefyd ei fodryb Olwen Griffiths.

Yr un yw ein cydymdeimlad â theulu'r diweddar David Jones, Drws y Nant gynt, a fu ynghyd â'i deulu yn ffyddlon yn hen gapel Wesle Graigfechan, lle bu David yn flaenor am flynyddoedd. Cynhaliwyd ei angladd yn y Tabernacl dan arweiniad Elizabeth.

Meddyliwn am y teuluoedd hyn i gyd yn eu hiraeth am anwyliaid.

### GWASANAETH SUL Y BLODAU
Roedd yn hyfryd gweld cynulliad da ar y Sul arbennig hwn ar ddechrau'r Wythnos Fawr. Y Parchedig Jennifer Hurd oedd yn arwain yr oedfa ac yn gweinyddu'r Cymun. Croesawyd pawb gan Lucy a chyfeiliwyd gan Elizabeth; croesawyd pawb wrth y drws gan Lowri yn absenoldeb Cyril Jones; paratowyd Bwrdd y Cymun gan Beryl. Cafwyd darlleniadau gan Lucy ac Elizabeth. Anfonwn ein cofion annwyl at Ray Lloyd, un o breswylwyr Llys Awelon, sydd yn yr ysbyty. Cafwyd paned a chacen flasus ar y diwedd, wedi eu paratoi gan Mairwena Mosford.

### DYMUNIADAU GORAU
Dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Margaret Morgan.

### OEDFAON EBRILL
Yn ystod y mis cafwyd gwasanaeth dan arweiniad Dewi Williams, Llannefydd – diolch iddo am ei genadwri diddorol a bendithiol. Bu Elizabeth hefyd yn cynnal oedfaon yn Llys Awelon ac yng Nglyndyfrdwy lle gweinyddwyd y Cymun. Yn yr oedfaon hyn Rhodri ac Elved oedd yn croesawu a'r cyfeilyddion oedd Rhian ac Enid. Roedd yn hyfryd gweld Enid a Hywel yn yr oedfa – y tro cyntaf i Hywel ar ôl ei waeledd. Boed bendith arnoch. Diolch i Ann am baratoi Bwrdd y Cymun ac i bawb am eu gweithgarwch a'u ffyddlondeb yn yr Ardal.

### DYDDIAU COLEG
Hyfryd oedd darllen erthygl Llinos Howells yn y *Gwyliedydd* diwethaf am ei hymweliad â Phatagonia. Mae gennyf atgofion annwyl am ei mam oedd yn nyrs yn y 'sick bay' yn y Coleg Normal pan oeddwn yn fyfyriwr ddechrau'r saithdegau. Roedd yn garedig iawn, a ninnau oddi cartref am y tro cyntaf. Aros yno nes gwella'n ddigon da i fynd yn ôl i'r tŷ lojin neu hostel. Cof da hefyd o'r croeso a gaem yng Nghapel Wesle Sant Paul, Bangor, ganddi hi a'i phriod y Parchedig Tudor Davies.
**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

## *Ebeneser, Trefor, Môn*

### CYDYMDEIMLO
Cydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Doris Wyn Mulcahey o Aberffraw. Cafodd Doris ei magu gyferbyn â'r capel ac arferai fod yn aelod yma yn Ebeneser flynyddoedd yn ôl. Roedd yn fam i Richard, chwaer i Margaret a'r ddiweddar Gwyneth a modryb i Paul, Gareth ac Iona.
**GOHEBYDD .** CARYS THOMAS



## *Salem, Rhyd y Foel*

### COFION
Anfonwn ein cofion at Bob Roberts, Tan yr Ogof, gan ddymuno iddo adferiad iechyd llwyr a buan, a dymunwn yn dda hefyd i'r holl aelodau na fuont yn mwynhau llawn iechyd yn ddiweddar.

### LLWYDDIANT
Bu'r ieuenctid yn brysur gydag amryw o weithgareddau yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Mari Wyn a Mali Grug ar basio eu harholiadau piano. Bu Cadi a'i chyfeillion o Ysgol y Creuddyn ar alldaith o Feddgelert i Lanwnda fel rhan o her Efydd Dug Caeredin, a daeth Gwil a'i gyfeillion o Ysgol Betws yn Rhos yn ail yng nghystadleuaeth pêl rwyd cymysg Urdd Conwy. Bu Tirion yn llwyddiannus hefyd gyda'i waith celf yn Eisteddfod Sir yr Urdd, gan fynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae Tirion yn ddisgybl yn Ysgol y Gogarth, Llandudno.

Rydym yn falch iawn o glywed am lwyddiannau ein pobl ifanc.



### SUL Y BLODAU
Fe gafwyd oedfa fendithiol iawn ar Sul y Blodau o dan arweiniad Catherine, gyda chyfraniadau amserol gan y plant a'r mamau. Yn dilyn yr oedfa mwynhawyd paned a chacennau yn y festri.
**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

## *Bethel, Rhiwbeina*

### DATHLU
Ym mis Ebrill eleni cawsom y fraint o ddathlu 25 mlynedd o wasanaeth ein gweinidog y Parchedig Evan Morgan. Daeth atom o Fachynlleth yn y flwyddyn 2000. Ar Ebrill 11 aethom allan i fwynhau pryd o fwyd gyda'n gilydd ac i flasu teisen arbennig. Yna y Sul canlynol roedd y gwasanaeth Cymun yng ngofal ein gweinidog a braf oedd gweld cynifer o aelodau hen a newydd yn yr oedfa. Cyfeiriodd Evan at y 25 mlynedd a aeth heibio gan gofio am nifer fawr o ddigwyddiadau hapus a fwynhawyd ym Methel dros y cyfnod hwn. Wedi'r gwasanaeth cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a darn o deisen. Diolch i un o'n haelodau ffyddlon, Julie Jones, am baratoi fideo ac albwm o luniau yn cynrychioli 25 mlynedd o fywyd Bethel. Hyfryd oedd gweld y lluniau ond achoswyd ambell ddeigryn wrth sylwi ar hen gyfeillion sydd bellach wedi ein gadael. Cyflwynwyd yr albwm lluniau i Evan gan Mair Owen, un o'r aelodau sydd wedi bod yn rhan o'r capel ers dros hanner can mlynedd. Ei gŵr, Gwyndaf Owen, oedd ysgrifennydd ac organydd y capel tan 2012. Rhoddwyd gair o deyrnged i Evan gan Howel James, un o'n haelodau hynaf sydd hefyd wedi bod yn rhan amhrisiadwy o'r capel ers amser maith. Diolch i Evan am ei wasanaeth. Rydym yn ei werthfawrogi'n fawr iawn.
**GOHEBYDD .** GWENDA FRANCIS

## *Pendref, Dinbych*

### OEDFAON
Cynhaliwyd gwasanaethau yn ddiweddar o dan arweiniad ein gweinidog y Parch. Marc Morgan, Dr Prydwen Elfed Owens, yr Hybarch Bernard Thomas, Royce Warner a Hedd ap Emlyn a mawr yw ein diolch iddynt. Dymunwn yn dda i Enid Davies, a rwystrwyd rhag dod atom oherwydd anhwylder. Ar fore dydd Gwener y Groglith gweinyddwyd y Cymun Sanctaidd, gwasanaeth hyfryd ac amserol o dan ofal ein gweinidog. Mae'r oedfa arbennig hon wedi bod yn draddodiad yma ym Mhendref ers blynyddoedd lawer.

Blaenor mis Mawrth oedd Hywel Evans gyda Heulwen Ellis yn gofalu am fis Ebrill. Diolch i Vera Savage, Marjorie Williams a Beti Roberts am gyfeilio ac i Gwyn Williams am arwain y canu.

### DYMUNIADAU GORAU
Braf oedd cael croesawu Sheila Thomas yn ôl i'n plith. Cofiwn am ein haelodau sydd ar hyn o bryd, am wahanol resymau, yn methu mynychu'r oedfaon, gan ddymuno'n dda iddynt. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Eryl Davies – ganwyd wyres iddo yng Nghaerwrangon ar 10 Ebrill sef Ella Felicity, chwaer fach i Amelie.

### ER COF ANNWYL
Trist iawn yw cofnodi y bu farw Austin Savage ar 1 Mai, yn ei gartref yn Llanelwy. Cydymdeimlwn yn ddwys â Vera a'r meibion Huw, Gwyn a Dewi a'r teulu oll.



### FFAIR WANWYN
Cynhaliwyd ein Ffair Wanwyn ar 4 Mai yng Nghanolfan Eirianfa, drws nesaf i'r capel. Siomedig fu'r nifer ddaru droi i mewn i'r ffair ond er hynny gwnaed elw eithaf sylweddol. Diolch am bob cefnogaeth ac i gyfeillion y capel a fu'n helpu ar y diwrnod.
**GOHEBYDD .** MARY JONES

# Y diweddar Barchedig Dennis Griffiths



Ar 11 Ebrill yn Ysbyty Maelor, Wrecsam ac yntau'n 82 oed, bu farw'r Parchedig Dennis Griffiths, un o'r anwylaf o blant dynion. Rhoddodd ei oes gyfan i wasanaethu fel gweinidog yn yr Eglwys Fethodistaidd a bydd llawer yn cofio'n annwyl amdano. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i weddw Gwendolen a'r mab Huw.

Yn dilyn ei hyfforddiant yng ngholeg Hartley Victoria, Manceinion rhwng 1962 a 1966 teithiodd Dennis yng nghylchdeithiau Pwllheli, Machynlleth, Llanrhaeadr, Corwen, Môn a Maelor (Wrecsam). Gwasanaethodd fel Ysgrifennydd y Synod yn Nhalaith Cymru gynt, gan gynrychioli'r Dalaith yn ffyddlon o flwyddyn i flwyddyn yn y Gynhadledd Fethodistaidd. Chwaraeodd ei ran, nid yn unig fel gweinidog cylchdaith cydwybodol ond hefyd drwy wasanaethu'r Cyfundeb Methodistaidd cyfan, yn arbennig ar y Pwyllgor Materion Tramor.

Gallai unrhyw un a glywodd Dennis yn pregethu dystio i'w feddwl praff a'i ddarllen eang. Parhaodd i bregethu tra medrai ar ôl iddo 'eistedd i lawr' ac fe barhaodd ei gyfeillgarwch a'i gefnogaeth garedig i'w gyd-weinidogion, yn yr Eglwys Fethodistaidd a thu hwnt. Wrth ddweud gair yn angladd Dennis, tystiodd y Parchedig Jennie Hurd i'r croeso grasol a roddodd Dennis bob amser iddi hi fel Saesnes a ddaeth i mewn i'r gwaith Cymraeg.

Dyma ran o deyrnged ei gyfaill y Parchedig Pryderi Llwyd Jones yn ei gynhebrwng:-

"Un annwyl, gonest a diffuant oedd Dennis. Yn medru chwerthin, chwedl Gwen a Huw, lond ei fol, ac yn medru teimlo i'r byw dros eraill ac yn ddiamynedd efo'r saint ar adegau – sydd ddim yn ddrwg o beth! Roedd yn fwrlwm o lawenydd ac angerdd ac yn ffrind hwyliog, difyr a da dros y blynyddoedd.

"Fe roddodd Dennis ei fywyd i wasanaethu ei Arglwydd ond fedrwn ni ddim mesur y gwasanaeth hwnnw yn nhermau llwyddiant – mwy nag y gall neb ohonom yn y weinidogaeth. Doedd ynddo ddim uchelgais yn ei waith mwy na bod yn ffyddlon i'w waith a'i Arglwydd. O'i blentyndod yn Licswm, a'r plant yn 'chwarae capel' – Dennis yn gweddïo a phregethu bob tro! – a thrwy ei yrfa addysgol, fe ddaeth yn amlwg mai i'r weinidogaeth y byddai Dennis yn mynd. Ym mhasiant Eisteddfod yr Urdd yn yr Wyddgrug yn 1957 fe gafodd Dennis ran esgob! Gallaf ddychmygu'r disgyblion i gyd yn cytuno mai dim ond Dennis allai lenwi'r rhan honno, er mai o deulu Wesleaidd yr hanai wrth gwrs, ac yntau hefyd yn nai i'r Parchedig E.H. Griffiths. Roedd Dennis yn edmygu'n fawr gofiant ei ewythr i George M. Ll. Davies, yr Apostol Heddwch.

"Gwen a Huw, diolch am eich cyfeillgarwch a diolch am fod yma yn dathlu bywyd ac yn diolch am Dennis annwyl, y cymeriad lliwgar a hoffus. Roedd Huw yn uchafbwynt llawenydd i Dennis a Gwen ac yn parhau i fod felly. Wedi rhannu siom a thristwch damwain fawr, roedd bywyd y teulu yn dystiolaeth i gariad a gofal mam a thad yn ogystal ag ysbryd dewr, addfwyn a siriol Huw ei hun. Roedd Dennis yn falch o'i deulu ac yn falch iawn o Huw. Mae cariad a ffydd yn drech na thristwch a siom ac rydych chi fel teulu yn dystiolaeth *fod* bywyd i'w ddathlu, hyd yn oed mewn trychineb, a hyd yn oed, fel heddiw, wyneb yn wyneb ag angau. Bu'n anodd gweld un mor annwyl yn dihoeni ond bellach rydych yn medru rhannu'r tangnefedd sydd yn y golled."

# Gweithredu dros Blant

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant:

| | |
|---|---|
| **Capel Moriah, Cwmdu (Gwasanaeth Carolau)** | **£100.00** |
| **Capel Salem, Rhyd-y-Foel (Gwasanaeth Carolau)** | **£150.00** |
| **Er cof annwyl am:** | |
| **Parchg. Clifford a Mrs Lilian Roberts gan Geraint a'r teulu;** | **£ 25.00** |
| **Parchg. William O Thomas gan Ann, Nia a Bethan** | **£ 25.00** |

**Anfonwyd cyfanswm o £300 yn enw Cylchdaith Cymru.**

Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth y Chwaer Eluned Williams, a roddodd flynyddoedd lawer o wasanaeth i *Gweithredu dros Blant* drwy ei gwaith a hefyd ar ôl ymddeol fel un o lysgenhadon yr elusen. Oni bai am ei hymgyrchu hi ni fyddai gennym y cydweithio clòs presennol rhwng *Gweithredu dros Blant* a'r Eglwys Fethodistaidd. Diolchwn i Dduw am y Chwaer Eluned a gweddïwn y bydd Duw yn nerth ac yn noddfa i'w theulu a'i holl gyfeillion yn eu colled.

Cofiwch ei bod yn *Sul Gweithredu dros Blant* ar 14 Gorffennaf. Bydd y gwasanaeth ar gael ar wefan *Action for Children.*

Hoffai Margaret ddiolch i bawb am eu dymuniadau da pan fu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac ar ôl dod adref. Ar orchymyn meddyg rhaid cymryd pethau'n araf yn awr tra'n aros am lawdriniaeth.

Gyda diolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth.
Marc a Margaret
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

**Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF**
**01978 756717 cwrteden@gmail.com**



# Mieri a mawredd

***gan Dr Huw Tegid***

Tybed sawl un ohonoch chi sy'n hoffi mynd am dro? Roedd y tywydd brafiach (o'r diwedd!) a gawsom ni ddechrau Mai yn ysgogiad i nifer ohonom fentro i'r awyr agored, rwy'n siŵr, yn enwedig gan ein bod ni wedi cael rhywfaint o hamdden dros Ŵyl Banc gyntaf mis Mai. Daeth tro'r tymhorau unwaith eto eleni i lenwi'r cloddiau a'r llwyni â bywyd, a rhan o'r twf blynyddol hwnnw ydi bod ambell fiaren yn ddigon powld i ymestyn ar draws rhai o'r llwybrau rydyn ni'n cerdded ar eu hyd. Pan fydd rhywun yn gweld y breichiau pigog hynny yn chwifian o'i flaen, yn enwedig ar draws llwybrau y bydd plant yn cerdded ar eu hyd, greddf rhywun ydi ceisio clirio'r mieri er mwyn i bawb a ddaw ar eich ôl chi allu bwrw ymlaen â'u taith yn ddianaf.

Un ffordd draddodiadol o glirio gordyfiant ydi estyn i'ch poced neu eich bag i nôl teclyn pwrpasol – cyllell, neu lafn o ryw fath – i gael gwared â'r perygl. Mae'n bosib bod teclyn enwog y 'Swiss Army Knife' yn dod i'r meddwl – wyddoch chi, y cyllyll amlbwrpas hynny sydd wedi cael eu gwerthu ledled y byd ers cant a deugain o flynyddoedd erbyn hyn. Tybed glywsoch chi'n ddiweddar y gallai hi fod yn anodd i chi brynu cyllell *Swiss Army* â llafn cyllell yn rhan o'i harfogaeth yn y dyfodol? Yn dilyn cynnydd mewn troseddau yn gysylltiedig â chyllyll yma ym Mhrydain, mae Victorinox, y cwmni sy'n eu gwneud nhw, wedi dechrau cynllunio rhai yn benodol heb lafnau cyllyll, gan dargedu marchnadoedd golffio, beicio ac ati, lle nad oes cymaint o angen am gyllyll, fel y cyfryw, ond digon o angen am bob math o declynnau eraill.

Mae hwn yn gam beiddgar gan y cwmni, yn enwedig pan feddyliwch chi mai prif ddiben y cwmni ydi gwerthu cyllyll. Mae'r cwmni wedi sylweddoli fod y byd wedi newid – er gwaeth yng nghyd-destun troseddau cyllyll – a bod yn rhaid iddo yntau fel cwmni newid ei ddarpariaeth os ydi o am oroesi. Da o beth ei fod wedi sylweddoli mai ei gryfder ydi natur amlbwrpas ei declynnau, a bod cymaint o bethau gwerthfawr eraill y mae modd iddo ei gynnig, heblaw am lafnau peryglus.

Wrth ysgrifennu ar gyfer cyfnodolyn, mae'n anodd gwybod pa mor gyfredol fydd eitem newyddion erbyn y bydd y rhifyn yn cyrraedd dwylo'r darllenwyr. Mae'n drist meddwl y gallaf ddweud yn hyderus, serch hynny, y bydd arfau, rhyfela a niwed i bobl ddiniwed yn hawlio'r penawdau heddiw hefyd wrth i chi ddarllen yr erthygl hon, yn union fel y maent wrth i mi daro pin ar bapur. Wrth feddwl am benderfyniad dewr cwmni Victorinox o'r Swistir i newid cyfeiriad, braf fuasai meddwl y bydd ambell wladwriaeth yr un mor flaengar yn yr oes "oleuedig" hon rydan ni'n byw ynddi, gan feddwl beth allant hwy ei wneud i leihau faint o bobl sy'n cael eu hanafu yn y byd heddiw. Ar ba bwynt, tybed, y gwnaiff gwledydd fel Rwsia, Israel – a'r Unol Daleithiau a ninnau ym Mhrydain, waeth i ni gyfaddef – ddweud bod gennym ni gymaint o bethau amgenach yn ein harfogaeth y gallem ni eu defnyddio i helpu eraill ar eu taith, heb orfod dibynnu ar arfau niweidiol?

Bydd rhai ohonoch chi o oedran penodol, neu a fu'n ymwneud â byd addysg neu Ysgolion Sul yn y 1980au, yn gyfarwydd â'r emyn 'Breuddwydio' yn y gyfrol 'Clap a Chân'. Arferem ganu'r emyn hwn dan arweiniad Mrs Thomas a Mrs Evans yn yr ysgol ym Mhenisa'rwaun. Mae'n wir mai ystyriaethau busnes sy'n sail i benderfyniad Victorinox i newid yr hyn mae'n ei werthu, ond mae'n gam dewr, ac mae 'breuddwyd' yr emyn – a minnau fel plentyn drwy ganu'r geiriau – yn parhau o hyd y bydd eraill yn dilyn eu hesiampl:



*Un nos fe gefais freuddwyd hardd,*
*Breuddwydiais gyda blas,*
*Breuddwydiais fod pob gwlad drwy'r byd*
*Am wrthod rhyfel cas.*

*Breuddwydiais weld ystafell fawr*
*Yn llawn arweinwyr byd,*
*Roedd papur i'w lofnodi'n dweud*
*Y byddai'r gynnau'n fud.*

*A phan lofnodwyd ef, daeth hedd*
*I fyd pob brawd a chwaer,*
*Fe gydiodd pob un law yn llaw*
*Ac anfon gweddi daer.*

*Ac yn y strydoedd dawnsiai pawb*
*I fyny ac i lawr,*
*Roedd gynnau mawr ac arfau cas*
*Yn bentwr ar y llawr.*

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Ebeneser, Treuddyn

**Y GYMDEITHAS**
Bydd cyfarfodydd Cymdeithas y Capel yn ailddechrau ar nos Fawrth, Mai 14eg am 7 o'r gloch. Y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans fydd yng ngofal y noson. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni. Dyddiadau y rhai i ganlyn yw –
Nos Fawrth 11 Mehefin
Nos Fawrth 9 Gorffennaf
Nos Fawrth 13 Awst – i gyd am 7 yr hwyr, siaradwyr i'w trefnu

Hefyd, ar brynhawn Sadwrn, Mehefin 8fed am 3 o'r gloch yn Hafan Deg byddwn yn cynnal Prynhawn Coffi/Te a Chacen. Y gost fydd £3 y pen. Bydd yr elw yn mynd tuag at gostau cynnal a chadw adeilad y capel.

**CLWB CAPEL EBENESER**
Mae'r Clwb yn dal i ffynnu o dan arweiniad Mrs Alaw Smith. Fe'i cynhelir ar y Sul cyntaf o'r mis am 10 y bore. Estynnir croeso cynnes i blant a'u rhieni/oedolyn i ymuno â'r sesiynau. Mae'r plant yn cael cyfle i ymuno mewn nifer o wahanol weithgareddau gan gynnwys gwrando ar storïau o'r Beibl a gwneud crefftau yn seiliedig ar y storïau.

**GWASANAETHAU DWYIEITHOG**
Yn ystod tymor yr haf cynhelir ein gwasanaethau am 6 yr hwyr. Ar Fehefin 9fed, dan ofal y Diacon Lisa Rathbone, a hefyd ar Orffennaf 21ain, dan ofal Mrs Siân Williams, byddwn yn cynnal gwasanaethau dwyieithog. Estynnwn groeso cynnes i bawb i ymuno â ni.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein dymuniadau a chofion gorau at yr aelodau hynny sydd ddim yn dda eu hiechyd a dymunwn adferiad buan iddynt oll, a chofiwn yn ogystal am drigolion eraill yr ardal sy'n wael ar hyn o bryd.

**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

### Bethel Prestatyn

**DYDD GWEDDI'R BYD**
Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn undebol yn Rehoboth a chymerwyd rhan gan nifer o aelodau o'r ddwy Eglwys. Merched Palesteina oedd wedi paratoi'r gwasanaeth a'r thema oedd 'Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad'.

**PRIODAS**
Priodwyd Felicity Parker a James Simpson yng nghapel Bethel ar y 6ed o Ebrill gan y Parchg Brian Huw Jones. Mae James a Felicity yn ffyddlon iawn ym Methel. Roedd yn hyfryd gweld y capel yn llawn gyda theuluoedd a ffrindiau'r ddau a chael dathlu gyda nhw. Addurnwyd y capel gan Felicity gyda blodau hyfryd. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i'r ddau yn y dyfodol.



**SUL Y PASG**
Arweiniwyd oedfa Sul y Pasg eleni gan y Parchedig Nesta Davies o Abergele. Adroddodd y stori mewn ffordd fywiog a chyffrous, gan wahodd rhai o'r bobl ifanc i wisgo i fyny fel cymeriadau a darllen rhannau o'r stori. Addurnwyd y Groes ar ddiwedd y gwasanaeth – pob aelod yn cael cyfle i osod blodyn arni cyn iddi gael ei gosod y tu allan i'r capel i bawb ei gweld.



**YMWELIAD Y DIACON JON**
Croesawyd y Diacon Jon Miller atom ym mis Ebrill, yr holl ffordd o San Clêr. Dechreuodd yr oedfa drwy ofyn am dri gwirfoddolwr i ddidoli nifer o siapiau a gwneud synnwyr ohonynt. Wedi cryn feddwl a thipyn o help gan y gynulleidfa gwelsom fod y siapiau yn cynrychioli'r gwagle yn y gair 'Iesu'. Y neges syml oedd fod yr Iesu yn gallu bod yn syth o flaen ein llygaid a ninnau yn aml iawn heb ei weld a heb fod yn barod i'w dderbyn.

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein cofion at ein holl aelodau sydd yn methu mynychu'r oedfaon oherwydd gwaeledd. Mae Mrs Eiry Parry wedi bod yn wael ers rhai wythnosau ond yn gwella'n araf.

**YR YSGOL SUL**
Rydym yn hynod falch o gael cwmni Evelyn, sy'n aelod newydd, yn yr Ysgol Sul a chroeso cynnes hefyd i Caio a Deio, aelodau newydd yn dilyn eu bedydd. Llongyfarchiadau mawr i Angharad, mam Caio a Deio, sydd wedi cael ei phenodi'n athrawes cerdd yn Ysgol Glan Clwyd.

**PANED A SGWRS**
Croeso mawr i unrhyw un ymuno â ni am 10.30 fore dydd Mercher am baned a sgwrs.
**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

**AELODAU NEWYDD**
Derbyniwyd pump o aelodau newydd yn yr wythnosau diwethaf. Croesawyd hwy i gyd i deulu Bethel gan ein bugail y Parch. Brian Huw Jones. Derbyniwyd Mrs Swan Simpson, James a Felicity Simpson, Dr Karen Jones a Miss Angharad Ellis. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i chi.





### Tabernacl, Llanfyllin

**GWASANAETH Y PASG**
Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth arbennig hwn gan aelodau o'r Tabernacl a Phendref. Cafwyd darlleniadau, emynau a gweddïau yn seiliedig ar hanes y Pasg. Ar ddiwedd yr oedfa, cawsom wrando ar ddatganiad hyfryd o'r gân 'Myfi Yw'. Diolch yn fawr i Roy Griffiths am drefnu.

**BEDYDD**
Achlysur hapus yw bedyddio plentyn bach, ac yn y Tabernacl ar 5 Mai bedyddiwyd Ifan Elvet Lewis, mab bach Sioned (gynt o Abernaint) a'i gŵr. Cymerwyd y gwasanaeth gan Mr Tom Ellis a'r organydd oedd Mrs Llywela Roberts. Pob bendith ar y teulu ifanc a dymuniadau gorau iddynt.

**BRYSIWCH WELLA**
Anfonwn ein cofion at Mrs Llywela Roberts a gafodd dipyn o siglad wedi damwain yn ddiweddar. Pob dymuniad da, Llywela.

**GWEITHREDU DROS BLANT**
Ar Ŵyl y Banc fe wnaeth Keith a Decia Blacker gynnal eu digwyddiad blynyddol sef diwrnod agored yng Nghoed Caeau Gwynedd, er mwyn codi arian at elusen Gweithredu dros Blant. Roedd clychau'r gog yn werth eu gweld ac fe gynhesodd y tywydd, a chafodd pawb amser da. Yn ystod y prynhawn daeth y wennol i'r ysgubor, er mwyn adeiladu ei nyth, ar ôl bod yn absennol ers ambell flwyddyn. Llwyddwyd i godi £370, gan gynnwys elw o werthu bocsys nythu a wnaed gyda phren o'r goedwig. Diwrnod pleserus yn wir.
**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

### Shiloh Newydd, Tregarth

**EMYNAU COLL Y WERIN**
Hyfryd oedd cael croesawu'r gantores Lleuwen Steffan o bentref Rhiwlas ond sydd yn awr yn byw yn Llydaw, i Shiloh ar nos Sadwrn, Ebrill 27 i gyflwyno 'Emynau Coll y Werin'. Dyma brosiect hynod o ddiddorol y mae Lleuwen wedi bod yn ymchwilio iddo am y deng mlynedd diwethaf. Roedd mor braf gweld cymaint o gynulleidfa wedi dod ynghyd i wrando. Gwnaed casgliad hynod o deilwng sef £712.68 ac fe'i cyflwynwyd i elusen GISDA sy'n cefnogi pobl ifanc ddigartref a bregus yn lleol. Diolch i bawb a gyfrannodd i wneud y noson yn gymaint o lwyddiant.



**DYMUNIADAU GORAU**
Dymunwn wellhad llwyr a buan i Anwen Griffiths a gafodd lawdriniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Whiston, Lerpwl. Pob dymuniad da hefyd i Norah O'Brien sydd wedi dioddef anhwylder ers rhai wythnosau, ac i bawb sydd heb fod mewn iechyd rhy dda.

**GWASANAETH DERBYN A CHOMISIYNU**
Nos Fercher, Mai 8fed yn Shiloh Newydd bu gwasanaeth arbennig iawn i dderbyn dwy o aelodau Capel Shiloh yn Bregethwyr Lleol. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Parchg Ddr Ian Morris a phregethwyd gan y Parchg Deb Stammers, Caergybi. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy ohonoch.

**DRWS AGORED**
Ydi, mae drws ein capel ar agor led y pen bob bore Gwener rhwng 10 a 12 i groesawu pawb a hoffai droi mewn am baned, sgwrs a chwmni. Croeso mawr.
**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

### Bethel, Deganwy

**GRŴP CRISTNOGOL CYMORTH CANSER ARDAL CONWY**
Ar Fawrth 23ain aeth nifer o aelodau Bethel Deganwy, Preswylfa Cyffordd Llandudno a chefnogwyr eraill ar daith gerdded noddedig 'o eglwys i eglwys' gan gasglu **£820** at gronfa Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, Bangor. Roedd y daith o Fethel Deganwy i Seilo Llandudno ac yn ôl tua wyth milltir o hyd. Yn disgwyl y cerddwyr ym Methel ar y diwedd roedd lluniaeth blasus a baratowyd gan aelodau ffyddlon Bethel. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd mewn arian, adnoddau ac amser i wneud y fenter hon mor llwyddiannus. Diolchiadau arbennig i'r cerddwyr a fu mor barod i dderbyn yr her, ac i chwiorydd Bethel am eu caredigrwydd ar y diwrnod a'u parodrwydd bob amser i gefnogi gwaith y Grŵp. Diolch i Dduw am ei holl fendithion. I wybod mwy am waith y Grŵp, cysylltwch ag Owie Morris (owen.r.morris@aol.co.uk, 07505703110).
**GOHEBYDD .** OWIE MORRIS






# Ni fethodd gweddi daer erioed

*gan Arwel Williams*

Mae gennyf fath o stôl sydd yn cael ei lle ar yr aelwyd acw. Cotwm neu wellt y tu mewn iddi ac wedi ei gorchuddio â defnydd gwlanog coch. Fe'i disgrifir gan rai fel stôl droed, ond mewn gwirionedd Clustog Weddi ydy hi.

Anrheg oedd y glustog gan fy nhad i gapel Bethel, Graigfechan pan oedd tua phedair ar ddeg oed a'r teulu ar fin symud o fferm Bwlch y Llyn, Graigfechan i fferm arall ar gyrion tref Rhuthun.

Bu'r glustog yn sêt fawr capel Bethel am flynyddoedd gan alluogi aelodau i benlinio arni wrth offrymu gweddi, ac yno y bu hyd nes i'r capel gau ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae'n debyg y byddai mynd ar eu gliniau i offrymu gweddi o'r sêt fawr yn arferiad digon cyffredin gan ein cyndadau. Fodd bynnag, hyd y cofiaf i, ychydig iawn o ddefnydd a gafodd y glustog i'r pwrpas hwnnw. Roedd yr arferiad o fynd ar ein gliniau i offrymu gweddi o'r sêt fawr wedi hen ddirwyn i ben erbyn ail hanner y ganrif ddiwethaf.

Mae'n debyg i'r rhan fwyaf ohonom gael ein dysgu yn blant i benlinio i ddweud pader cyn noswylio, er bod yr arferiad yna hefyd efallai yn ddieithr erbyn hyn yn y rhan fwyaf o gartrefi.

Yna beth am y weddi a offrymir cyn bwyd – arferiad sy'n prysur ddiflannu o lawer o'n hysgolion ac, mae'n siŵr, o aelwydydd. Mae'n rhaid i mi gyfaddef nad oedd dweud gras bwyd yn arferiad gennym gartref ers talwm, heblaw wrth gwrs pan fyddai'r pregethwr acw i ginio ar y Sul!

Tybed a yw gweddi yn gyffredinol yn colli ei lle ym mywydau pobl – er i lawer droi at weddi pan ddaw yn gyfnod o argyfwng arnynt. Ar un adeg bu'n arferiad galw Cyfarfodydd Gweddi cyhoeddus mewn cyfnodau o argyfwng, a hyd yn oed heddiw fe welwn gymdeithas yn troi at ddrws yr Eglwys mewn cyfyngder. Wrth gwrs fe gynhelir hefyd y dyddiau yma lawer o gyfarfodydd ar y cyd rhwng mudiadau crefyddol a seciwlar, sef gwylnosau i alw am heddwch yn y Dwyrain Canol a mannau eraill. Diolch amdanynt.

Bu llawer yn cwestiynu effaith gweddi. Os yw mor effeithiol, meddent, yna pam na fuasai holl helyntion a thrychinebau'r byd wedi eu datrys erbyn hyn? Onid yw Duw, medd eraill, yn ymwybodol o'n hanghenion cyn i ni ofyn. Ond, onid pwrpas gweddi yw ein galluogi i dderbyn nerth i ymdopi â sefyllfaoedd a ddaw i'n rhan, yn hytrach na symud yr anawsterau hynny? Mewn gwahanol ffyrdd, fe atebir ein gweddïau. Nid rhyw "restr o ddymuniadau" mo gweddi ond yn hytrach sgwrs bersonol rhyngom ni a Duw, cyfrwng i ddyn ddod at ei greawdwr.



Dywedodd yr Iesu yn ei ddysgeidiaeth ar weddi: *"...dos i mewn i'th ystafell, ac wedi cau dy ddrws gweddïa ar dy Dad sydd yn y dirgel a bydd dy Dad sydd yn gweld yn y dirgel yn dy wobrwyo."*

Yn un o'i emynau enwocaf fe ddywed William Williams, Pantycelyn na fethodd gweddi daer erioed â chyrraedd hyd y nef. Nid yw'n dweud dim am sut mae Duw yn ymateb, dim ond bod pob gweddi daer yn ei gyrraedd. Felly dyna'r sicrwydd sydd gennym, fod Duw yn ymateb i'n gweddi yn unol â'i gariad a'i drugaredd.

Emyn prydferth yw cyfieithiad Nantlais o "What a friend we have in Jesus" gan Joseph Scriven. Mae'n dweud llawer am fendithion gweddi.

*O'r fath gyfaill ydyw'r Iesu*
*ffrind ymhob ystorom gref;*
*O'r fath fraint yw mynd â'r cyfan*
*Yn ein gweddi ato ef.*
*O'r tangnefedd pur a gollwn,*
*O'r pryderon rŷm yn dwyn,*
*am na cheisiwn fynd yn gyson,*
*ato ef i ddweud ein cwyn.*

*Pwy sy'n teimlo yn drwmlwythog*
*O dan faich euogrwydd cas?*
*Iesu'n unig yw ein noddfa –*
*awn â'n cri at orsedd gras.*
*A oes ffrindiau'n cefnu arnat?*
*Dwed dy gŵyn wrth Frenin hedd:*
*yn ei freichiau cei dawelwch*
*a diddanwch yn ei wedd.*

# FFOTOGRAFFWYR PRIODASOL

**O'R LLAN**
gan y **Canon Idris Thomas**

Yn y *Gwyliedydd* diwethaf, y thema gennyf oedd angladdau a'r tro hwn i'r maes priodasol yr af ac yn benodol i'r berthynas (neu'r rhyfel eglwysig yn ôl rhai!) rhwng y ffotograffydd sy'n tynnu lluniau priodas mewn eglwys a'r sawl sy'n gweinyddu'r briodas sef yr offeiriad neu'r gweinidog. Yn bersonol ni chefais i unrhyw drafferth trwy gydol fy holl flynyddoedd yn gweinyddu priodasau, gydag unrhyw un o'r ffotograffwyr! Os oeddent yn cadw pellter synhwyrol yn ystod y briodas a pheidio ag amharu a bod yn niwsans diangen (y camera ddim i fyny trwyn yr offeiriad!)... yna nid oedd problem. Yn ddiweddar mae'r pwnc wedi cael tipyn o sylw oherwydd ymddangosiad deiseb yn gofyn am "wella amodau gwaith i ffotograffwyr priodasol mewn eglwysi". Cyhuddwyd rhai clerigion o ymddygiad sarhaus tuag atynt ac ymhen dim o dro cafwyd mil o lofnodion. Yn ôl y ddeiseb mae'n broblem enfawr i'r diwydiant ffotograffiaeth priodasol ac fe honnir bod offeiriaid yn anghwrtais, sarhaus, ymosodol a dilornus!

Fodd bynnag, yn ôl un ffotograffydd profiadol, mater o gydweithio ydyw – sef yn bennaf sgwrs gall a chwrtais rhwng yr offeiriad a'r tynnwr lluniau ymlaen llaw. Fel y nododd Rowan Williams, y cyn-Archesgob, mae'n rhesymol i glerigion ofyn i ffotograffwyr beidio â bod yn ymwthiol yn ystod y gwasanaeth pan fydd rhywbeth arwyddocaol yn digwydd ar lefel ysbrydol. Pan oeddwn yn gurad flynyddoedd ôl, cefais fy nysgu sut i weinyddu mewn priodas ac roedd y wers yn cynnwys cyngor ar sut i ymdopi â'r ffotograffydd. Cyfarfod â nhw ac egluro yn gyntaf, a hynny yn foesgar a chyfeillgar, fod dwy reol gadarn, sef iddo ef neu hi gadw o'm ffordd i a byddaf innau yn cadw o'i ffordd yntau neu hithau! Dod i gytundeb ar y lleoliadau gorau i'r ffotograffydd fod yn ystod y gwasanaeth i gyd. Bod yn fodlon darparu golygfa glir i'r ffotograffydd ac iddo yntau gofio y tair "d" sef di-stŵr, diffwdan a disylw. Mae'r ffotograffydd swyddogol mewn priodas yn berson o bwys – cofier hynny. Os na chofir popeth am y gwasanaeth, mae'r lluniau priodasol yn atgof hapus am byth o brofiad tawel a llonydd a hyd yn oed ysbrydol a gafwyd, hyd ddiwedd oes. I ddyfynnu geiriau Nick Fawcett:-

"Dduw'r bywyd, molwn di am y dydd hwn o lawenydd a dathlu, y cariad a'r ymroddiad, y dyhead a'r disgwyliadau. Am bopeth mae heddiw yn ei olygu, diolchwn i ti"

## Y CYNGOR CYMUNED

Sbardun i'r erthygl hon oedd gweld pennawd yn y papur newydd yn dweud fod modd bellach, yn dilyn newid cyfraith gwlad, i'r Cynghorau Cymuned roi grantiau at atgyweirio addoldai.

Rwyf newydd ddychwelyd ar ôl bod mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanddeiniolen neu'r hen Gyngor Plwy fel yr adwaenwyd ef. Ar ôl ymddeol yma i Ddeiniolen, euthum yn aelod o'r Cyngor hwn yn syth. Bu fy nhad hefyd, a Glyn fy mrawd, yn aelodau o'r un Cyngor. Pan oeddwn yn offeiriad ym Mro yr Eifl bûm yn aelod a chlerc yng Nghyngor Cymuned Llanaelhaearn a hoffais y gwaith yn fawr. Tiriogaeth y Cyngor hwnnw oedd pentrefi Llanaelhaearn a Threfor. Cyngor Dwyfor oedd y Cyngor Dosbarth gyda'i bencadlys yn nhref Pwllheli gerllaw a chyfleus oedd hynny os oedd angen picio yno i weld ambell swyddog ac ati. Mae tiriogaeth Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn helaeth iawn ac yn ymestyn o gyrion Chwarel Dinorwig gan gwmpasu cymunedau Dinorwig, Y Fachwen, Deiniolen a Chlwt y Bont, Penisarwaun, Brynrefail, Rhiwlas a Bethel. Hyd heddiw mae pob cyfarfod yn cychwyn gyda gweddi a braint yw i mi bellach eu hoffrymu ymhob cyfarfod. Ysgwn i faint o Gynghorau Cymuned sy'n arddel hyn heddiw? Yng nghyfnod fy nhad ar y Cyngor, byddai offeiriad Plwyf Llandinorwig ar y pryd yn aelod sef y Parchedig Evan Trefor Jones, yn ogystal â gweinidogion yr ardal megis y Parchedigion John Price Wyn a Terry Thomas.

Gyda'r gallu sydd gan y Cynghorau yn awr, felly, i roi grantiau ariannol tuag at atgyweirio mannau addoliad, wel... brysied y dydd!





# O'R PEN YMA

*gan Angharad Tomos*

Soniais yn y rhifyn dwytha mod i'n mynd ar fy ngwyliau i'r Eidal a'r Almaen, a dyma fi wedi dod yn ôl yn un darn. Bûm mewn tair dinas a gwelsom sawl eglwys yn ystod y daith. Dyna chi gadeirlan anferth Bologna, a holodd y mab pam ei bod mor fawr. "Er clod i Dduw," meddwn, ac yna darllenais yr hanes. Y bwriad oedd codi'r eglwys fwyaf yn y byd, ond rhoddodd y Pab stop ar hynny, felly mae yna un adain heb ei gorffen. Gosodwyd y seiliau yn 1028, ond fe'i llosgwyd gan dân. Buont yn ymestyn yr eglwys newydd tan i'r gwaith fynd mor fawr fel y dymchwelodd y sylfeini yn y crypt. Mae na wers yn fanno, toes? Nid maint ein haddoldai sy'n bwysig i Dduw.

Yn Ravenna y gwelsom yr addoldai hynaf – o'r 6ed ganrif. Nodwedd y rhain yw eu mosaics rhyfeddol, sy'n gwbl wahanol i ddim a welais o'r blaen. Mae'n wyrth eu bod wedi goroesi, yn enwedig am i'n 'hochr ni' fomio'r lle yn ddidrugaredd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Edrychaf ar yr olygfa o Grist yn cael ei fedyddio gan Ioan Fedyddiwr, a synnu fod y delweddau yn siarad efo ni yn yr G21 fel ag yr oeddent fil a hanner o flynyddoedd yn ôl – yr un yw'r neges. Cawsom fynd i eglwys lle cynhaliwyd angladd Dante yn 1321, ac roedd gwefr yn hynny. Ond mae'r torfeydd yn dod i weld y pysgod aur sydd yn y crypt, a orchuddiwyd gan ddŵr. Roedd gen i biti dros y bobl leol, roedd eu heglwys wedi troi yn gyrchfan twristiaid! Mae hyn yn codi'r cwestiwn dadleuol am gost cadw'r eglwysi hyn ar agor ac mewn cyflwr da. Rydym wrth ein bodd yn eu gweld, ond nid orielau celf mohonynt, ond yn hytrach llefydd o addoliad. Trafodwch.



Pan aethom i'r Almaen, roeddent wedi addasu hen abaty yn Freiburg ac wedi rhoi creiriau eglwysig yno. Canfyddais y creiriau o'r G13 yn hynod o bwerus, yn enwedig y cerflun pren o Grist ar asyn, neu Fair Forwyn yn wylo. Roeddent yn siarad â mi yn uniongyrchol iawn, ac oes – mae gwerth mewn gwario ar warchod y rhain.

Yn Freiburg y bu T H Parry Williams yn astudio, ac un haf aeth ar wyliau i'r Swistir yn hytrach na mynd adref i Ryd-Ddu. Mae ganddo gyfeiriad at gapel bach a welodd yn Lwsérn, capel Pabyddol,

> 'Mewn caban cudd dan gysgod gwern
> Mi welais Iesu pren y groes..'

Bu yn byw ym Mharis hefyd, ac mae'n cyfeirio at eglwys yno,

> 'Yn neuadd y cerfluniau cain
> Canfûm Law Duw celfyddyd dyn'

Yna mae'n dod i Gymru,

> 'Mewn capel gwlad dan bulpud plaen
> Gwelais werinwr ar ei lin...'

Ac mae'n gorffen fel hyn,

> 'Ni welais Iesu na Llaw Duw
>   O'i flaen pan grymai ar y llawr
> Gan alw ar yr Ysbryd byw
>   Trwy binwydd cefngor y sêt fawr.'

Y cwbl mae Duw ei eisiau yw ymddiddan gyda ni, clywed ein pader, ein meddyliau a'n hofnau, a chadw perthynas agos efo ni. Dydi o ddim ots mewn gwirionedd ym mha fath o adeilad yr ydym.





# MIS TRYWSUSAU BACH A CHRYSAU LLEWYS BYR

*gan Glyn Tomos*

Dwn i ddim amdanoch chi ond mis Mai yw un o fy hoff fisoedd yn y flwyddyn. Dyma'r mis lle mae'r tywydd yn dechrau cynhesu go iawn ac awydd yn codi ar bawb i fynd allan i'r awyr agored i fwynhau'r haul a'r nosweithiau braf. Mae mwy o bobl i'w gweld o gwmpas a chymdogion yn edrych ymlaen at ailafael ar y cyfle i sgwrsio ar ôl misoedd y gaeaf.

Yr arwydd cyntaf i ni fel plant bod yr haf ar y ffordd oedd gweld Mam yn tynnu trywsusau bach a chrysau llewys byr o'r drôr i ni fel hogia tra bod y genod yn edrych ymlaen at gael gwisgo ffrogiau haf. Roedden ni i gyd wrth ein bodd yn cadw dillad trwm y gaeaf a newid i ddillad ysgafnach yr haf.

Pan oeddem yn blant mi fyddai dillad haf yn dod allan mewn da bryd i fynychu Gŵyl Gorawl Eryri – digwyddiad blynyddol yn ardal Arfon neu Ddeoniaeth Arfon fel roedd hi bryd hynny, gyda phob plwyf yn gyfrifol am ei chynnal yn ei dro. Dyna lle byddem ni yn ymweld ag Eglwysi Llanfairisgaer, Llanberis, Deiniolen, Llanrug, Penisarwaun a Bangor a chael croeso mawr ymhob man. Cynhelid Gwasanaeth Plant yn y pnawn a Gwasanaeth Oedolion gyda'r nos. Yn y pnawn roedd yr Eglwysi yn llawn o blant a'u rhieni o bob cwr o'r ddeoniaeth gyda'r plant oed cynradd yn cael eu gwobrwyo gyda thystysgrifau am ddysgu adnodau ar gof, tra byddai plant oedran uwchradd yn derbyn tystysgrifau a gwobr ariannol am lwyddo mewn cystadlaethau ysgrifenedig ar hanesion o'r Beibl. Rhwng y ddwy oedfa ceid gwledd o fwyd wedi ei baratoi i ni cyn i'r gynulleidfa pnawn fynd adra a chynulleidfa gyda'r nos ddod i'r eglwys.

Ar y llaw arall nid oedd tywydd heulog mis Mai yn fawr o help pan oedd hi'n dod yn amser adolygu ar gyfer arholiadau ysgol neu goleg. Dyma artaith os bu un erioed. Trio aros yn y tŷ yn stydio tra bod yr haul a'r tywydd braf yn gwneud popeth o fewn eu gallu i'n tynnu ni o fod dan do. Na, toedd hynny ddim yn deg.

Dwi'n cofio gwneud addewid, ar ôl profi tywydd braf pob amser arholiadau, mai ym mis Mai y byddwn yn mynd ar fy ngwyliau ar ôl dechrau gweithio. Nid yn unig bod hyn yn gwneud synnwyr oherwydd y tywydd braf ond hefyd mai ar ddechrau tymor gwyliau ym mis Mai y mae'r cyrchfannau gwyliau i'w gweld ar eu gorau a staff gwestai, bwytai ac ati yn eu hysbryd gorau yn hytrach nag wedi blino ac o dan bwysau gwaith yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst.

Eto, er cymaint apêl mis Mai, cefais fy nharo ar ddechrau'r mis gan luniau o blant a phobl ifanc Gaza yn dawnsio yn llawen o ddeall bod gobaith gwirioneddol am gadoediad rhwng eu gwlad ac Israel a'r fath siom a thristwch mai gobaith dros dro oedd y cyfan. Gwelsom lawenydd plant a phobl ifanc yn troi yn hunllef mewn amrantiad. Gwelwyd siom lle bu gobaith a'r anrheg mwyaf sef heddwch oedd bron o fewn eu cyrraedd yn cael ei gipio mor greulon oddi arnynt.

Dyma'r digwyddiad fydd yn aros yng nghof y plant hyn am fis Mai eleni, un o nifer o ddigwyddiadau sydd yn llethu eu gobeithion am y dyfodol. Pam bod plant a phobl ifanc mewn gwledydd fel Palesteina ac Wcráin ac eraill yn cael eu hamddifadu mor greulon o gynhesrwydd cariad pobl at ei gilydd, ym mis Mai eleni a phob mis arall. Ni allwn ond gobeithio y bydd mis Mai y flwyddyn nesaf neu ymhell iawn cyn hynny yn dod â dedwyddwch parhaol i holl blant a phobl ifanc, ac yn wir holl drigolion y gwledydd hyn sydd dan ormes heddiw.

# Dewch i weld

# Y BEIBL GWAU!

# Come and see

# THE KNITTED BIBLE!

Dros 30 o olygfeydd o'r Beibl, i gyd wedi eu gwau ac yn werth eu gweld!

More than 30 scenes from the Bible, all beautifully knitted.



CROESO CYNNES I BAWB. BYDD TE BACH AR GAEL HEFYD.

ALL ARE WELCOME. REFRESHMENTS WILL BE SERVED.

## Capel Shiloh, Tregarth LL57 4AU

**11, 12, 13 Mehefin/June | 18, 19, 20 Mehefin/June 2-5pm**